Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Dilyn cyfarwyddiadau syml

Ar y pwynt hwn, bydd plant fel arfer yn meddu ar eirfa sy'n cynnwys 'mami' a 'dadi' ac o leiaf tri gair arall, fel, pel, ci a mwy. Mae hyn yn creu cyfle i ddechrau rhoi gorchmynion syml i'ch plentyn i weld os yw'n deall ac yn gallu eu dilyn.

Cofiwch gadw eich cyfarwyddiadau'n glir ac yn syml, mae'n syniad da lleihau'r iaith a defnyddio geiriau allweddol unigol.

### Beth ddylwn i ei wneud?

- Y cam cyntaf yw rhoi cyfarwyddyd i'ch plentyn, e.e., 'nôl y bêl'.
- Yna bydd angen i chi ei **helpu** i gwblhau'r dasg ac **ailadrodd** y cyfarwyddyd wrth wneud hynny.
- **Lleihewch** y gefnogaeth yn raddol gydag awgrymiadau, fel pwyntio. Yna, dros amser, dylai'r plentyn allu dilyn y cyfarwyddyd heb unrhyw gymorth.
- Ar ôl hynny, gallwch chi ddechrau ychwanegu mwy o gyfarwyddiadau arferol fel **esgidiau, potel, cot ac ati.**

### Sut?

**Bydd cadw pethau'n fyr, yn syml ac yn glir yn helpu'ch plentyn i ddeall.**

**Cofiwch ailadrodd wrth gyflawni'r cyfarwyddyd gyda'ch plentyn.**





### Rhoi hynny ar waith

Os ydych chi'n teimlo bod eich plentyn yn dda am ddilyn y cyfarwyddiadau trefn ddyddiol hyn, ceisiwch gyflwyno'r gêm ganlynol i ddatblygu'r sgil hon ymhellach.

**Gêm**

- Rhowch dri gwrthrych sy'n addas ar gyfer oedran o flaen y plentyn, e.e. dol, cwpan, llwy.
- Gofynnwch i'r plentyn – "Ble mae'r llwy?" "Dangos y cwpan i mi", "Rho'r ddoli i mi".
- All y plentyh ddilyn y cyfarwyddiadau hyn? Os felly, ceisiwch ychwanegu pum eitem a chymryd rhan yn y gêm eto.
- Unwaith y bydd eich plentyn yn hyderus yn gwneud y cyfarwyddiadau hyn, gwnewch y gêm yn anoddach trwy ddefnyddio dwy wrthrych yn yr un cyfarwyddyd. Er enghraifft, "Rho'r cwpan i doli" neu "Rho'r car yn y bocs".

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideo isod.**

SCAN ME

[www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi](www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi)

### Symud ymlaen…

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch gyflwyno rhyngweithiad **Oedolyn a Phlentyn**. Gadewch i'ch plentyn arwain y chwarae a gwnewch yn siŵr i ddangos diddordeb mewn beth mae'n ei wneud. Mae'n bwysig cofio AAG– Arsylwi, Aros a Gwrando.